O llanwa hwyliau d'Eglwys

Caneuon Ffydd: Rhif 615

O llanwa hwyliau d'Eglwys
yn gadarn yn y gwynt
sydd heddiw o Galfaria
yn chwythu'n gynt a chynt:
mae'r morwyr yma'n barod
a'r Capten wrth y llyw,
a'r llong ar fyr i hwylio
ar lanw Ysbryd Duw.

O cadw'r criw yn ffyddlon
a'r cwrs yn union syth
ar gerrynt gair y bywyd
na wna ddiffygio byth:
rho ddwylo wrth y badau
yn barod at y gwaith
o ddwyn y rhai sy'n boddi
i uno ar y daith.

Agora ffordd drwy'r tonnau
pa bynnag storm a ddaw,
gwasgara'r niwl nes gwelwn
oleudy'r ochor draw:
mae'r llanw'n uwch na'r creigiau
a'r sianel ddofn yn glir
nes down i'r harbwr tawel
rhwng traethau aur y tir.

SIÔN ALED

MYFYRDOD

Cawn fynd ar fordaith yn yr emyn gwreiddiol hwn o waith Siôn Aled, ond nid 'cruise' er difyrrwch, wedi ei drefnu gan ryw gwmni gwyliau mohono! Eglwys Crist sydd yma 'ar fyr i hwylio ar lanw Ysbryd Duw'. Mae'r ddelwedd o Eglwys Crist fel llong yn un gref iawn ac yn cael ei chynnal trwy'r tri phennill. Llong hwyliau yw ein llong, ac mae angen gwynt nerthol arni i lenwi'i hwyliau a'i symud

ymlaen. Yn ogystal â bod yn llanw i gario'r llong, mae Ysbryd Duw yn wynt hefyd, sydd 'yn chwythu lle y myn' (Ioan 3:8). Hwn yn unig all lenwi hwyliau'r llong hon, ac mae angen digon ohono! Cofiwn am Bantycelyn mewn cyfnod cynharach yn dyheu am 'deimlo awel o Galfaria fryn' (494), a Dafydd William, Llandeilo Fach, yn gofyn am awel o fynydd Seion lle mae Duw, nid yn unig i chwythu arno, ond i'w godi i fyny: 'O Arglwydd, dyro awel, a honno'n awel gref' (581).

Bu Paul, yr apostol, ar long sawl tro yn ystod ei deithiau cenhadol, gan ddioddef llongddrylliad unwaith hefyd wrth hwylio tua Rhufain (Actau 27). Ni ddefnyddiodd ef y llong fel delwedd, ond soniodd am yr eglwys fel adeilad gyda Christ yn gonglfaen iddo (Effesiaid 2:20–22). Ac mae ei ddelwedd o'r Eglwys fel corff yn arwyddo'r un math o gydweithio a chyd-dynnu ag y byddid yn rhaid wrtho ar long (1 Corinthiaid 12:12–30). Crist yw'r 'Capten' ar ein llong, 'yn ben ar bob peth i'r eglwys' (Eff. 1:22). Ef sydd yn 'cadw'r criw yn ffyddlon', ac yn sicrhau ein bod yn hwylio ar y llwybr cywir, sydd yn dilyn 'cerrynt gair y bywyd'. Wrth ddilyn y llwybr hwnnw a geir yng Ngair Duw ei hun, fe fyddwn yn cofio am waith a chenhadaeth yr Eglwys, sef 'dwyn y rhai sy'n boddi i uno ar y daith'. Nid llong bleser sydd gennym, fe gofiwch, ond un sydd yn achub ac yn cadw fel arch Noa gynt. Atgoffwn ein hunain yn gyson nad ydy'r Eglwys yn bodoli er ei mwyn ei hun, ond er mwyn y rhai sydd heb fod yn rhan ohoni ac mae angen eu dwyn at Grist trwyddi.

Darlun tipyn yn llai delfrydol oedd gan Gwenallt o'r Eglwys yn ein dyddiau ni pan gyfansoddodd ei gerdd 'Ar Gyfeiliorn' yn *Ysgubau'r Awen*. Mae'r llong yn ein dwylo ni ein hunain ac mae angen arweiniad arni: 'Ein llong yn tin-droi yn y niwl, a'r capten a'r criw yn feddw', yw ei ddedfryd arni. Ond gŵyr yntau hefyd fod yna obaith i'r llong os bydd y Capten go iawn, Pen Mawr yr Eglwys, yn gafael yn y llyw i'w harwain:

> Gosod, O Fair, dy seren yng nghanol tywyllwch y nef,
> A dangos â'th siart y llwybr yn ôl at ei ewyllys ef,
> A disgyn rhwng y rhaffau dryslyd, a rho dy law ar y llyw,
> A thywys ein llong wrthnysig i un o borthladdoedd Duw.

GWEDDI

O Dad, dibynnwn ar dy arweiniad mewn cymaint o ffyrdd; paid â chaniatáu inni gymryd y llyw i'n dwylo ein hunain oddi mewn i'r Eglwys, nac yn ein bywyd beunyddiol. Ti yw Capten ein bywydau, Arglwydd Iesu; cadw ni'n ffyddlon iti nes dod i'r harbwr tawel ar derfyn ein taith. Yn enw Iesu. Amen.